

CANLLAWIAU CAFFAEL I GYFLENWYR CYNGOR SIR Y FFLINT

Polisi Dim AP Dim Tâl (Dim Archeb Prynu Dim Tâl)

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i wella'r ffordd y mae'n prynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Newid allweddol sydd wedi cael ei roi ar waith yn ddiweddar yw polisi Dim AP Dim Tâl (Dim Archeb Prynu Dim Tâl).

C1: Beth yw Dim AP Dim Tâl

Dim Archeb Prynu, Dim Tâl yw un o bolisiau allweddol Cyngor Sir y Fflint i sicrhau bod taliadau ond yn cael eu gwneud i gyflenwyr a chontractwyr sydd wedi cyflwyno anfoneb (ar bapur neu'n electronig) sy'n cynnwys rhif archeb prynu swyddogol a dilys (oni bai bod eithriad y cytunwyd arno ymlaen llaw yn berthnasol – gweler C7 isod am restr lawn).

C2: Pam cael polisi Dim Archeb Prynu Dim Tâl?

Mae polisi Dim Archeb Prynu Dim Tâl yn sicrhau bod y Cyngor ond yn talu am nwyddau, gwasanaethau a gwaith sydd wedi cael eu harchebu yn gywir ac wedi eu hawdurdodi yn unol â Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor a Rheoliadau Ariannol **CYN** derbyn anfoneb. Mae hefyd yn sicrhau bod modd i'r tîm Cyfrifon Taladwy brosesu a thalu anfonebau yn ddi-oed i gyflenwyr a chontractwyr. Bydd anfonebau a dderbynnir gan y Tîm Cyfrifon sy'n Daladwy heb rif Archeb Prynu dilys yn **achosi oedi sylweddol cyn talu i'r cyflenwr** a gall yn y pen draw gael ei ddychwelyd i'r cyflenwr.

C3: Pryd fydd Dim AP Dim Tâl yn dod i rym?

Mae'r polisi Dim AP Dim Tâl yn berthnasol **nawr** ac mae'n berthnasol i bob archeb am nwyddau, gwasanaethau neu waith a drefnwyd gyda'r Cyngor.

C4: Sut mae Dim AP Dim Tâl yn gweithio?

Mae Dim AP Dim Tâl yn gweithio drwy ei gwneud yn ofynnol i bob anfoneb a gyflwynir gan gyflenwyr a chontractwyr gynnwys rhif AP swyddogol. Heblaw mewn amgylchiadau eithriadol bydd rhif AP:

- yn cael ei gynhyrchu o PROACTIS P2P neu systemau Archebu eraill y Cyngor (gweler C6)
- yn cael ei roi i'r cyflenwr neu'r contractwr **CYN** gwneud unrhyw ymrwymiad i wario arian y Cyngor.

Mewn amgylchiadau eithriadol gall AP Brys gael ei gyflenwi heb rif AP, fodd bynnag, dylai hyn gael ei ddilyn gyda rhif AP dilys o fewn dau ddiwrnod gwaith.

Efallai na fydd unrhyw anfoneb a dderbynnir gan y Tîm Cyfrifon Taladwy nad yw'n dyfynnu rhif AP dilys yn cael ei brosesu a gall gael ei dychwelyd i'r cyflenwr a allai arwain at oedi sylweddol cyn i'r cyflenwr gael ei dalu.

Mae eithriadau i'r rheol gyffredinol hon a rhestrir y rhain yn C7.

C5: AP Dilys?

Ni ddylai cyflenwyr, o dan unrhyw amgylchiadau, dderbyn unrhyw archeb llafar neu ysgrifenedig gan swyddog y Cyngor **oni fydd** rhif AP dilys yn cael ei roi neu eithriad fel y nodir yn C7 neu ei fod yn orchymyn brys. Fel y soniwyd eisoes os oes **unrhyw anfoneb a**

dderbyniwyd nad yw'n dyfynnu rhif AP efallai na fydd yn cael ei brosesu a gall gael ei dychwelyd at y cyflenwr, oni bai ei fod yn cael ei gwmpasu gan eithriad (gweler C7).

C6: Beth yw rhif AP dilys?

Mae AP dilys yn Archebion Prynu sy'n dod o systemau archebu Cyngor Sir y Fflint, sef y canlynol:-

- PROACTIS P2P
- Yr Efail Dechnoleg
- Tai IBS
- Tranman
- FMS (Ysgolion Uwchradd)
- Padiâu Archebion â Llaw (Ysgolion Cynradd - ac eithrio'r rhai sydd eisoes ar P2P)

Fel y nodir yn C4 uchod, mewn amgylchiadau eithriadol gall AP Brys gael eu cyflenwi gyda rhif AP dilys a gynhyrchir o fewn dau ddiwrnod gwaith.

C7: Pa eithriadau sy'n gymwys i'r Polisi Dim Archeb Prynu Dim Tâl?

Nid oes angen rhif AP dilys yn yr amgylchiadau canlynol. Mae'r rhestr hon yn cael ei hadolygu yn gyson a bydd unrhyw newidiadau pellach yn cael eu cyflwyno i'n cyflenwyr drwy e-bost neu drwy wefan caffael Cyngor Sir y Fflint yn www.flintshire.gov.uk/en/Business/Selling-to-the-Council Mae'r Rhestr Eithriadau ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Teleffonau (llinell dir a symudol) a Chyfleustodau (hy Nwy, Trydan, Dŵr) - lle bo modd, dylech weithio gyda'ch cyflenwyr i gyfuno biliau er mwyn lleihau costau prosesu
- Gwasanaethau Post
- Darpariaethau Cyffredinol (Bwyd a Diodydd) - Arlwygo Sir y Fflint yn unig
- Grantiau
- Rhenti
- Taliadau i neu ar ran Cyrff Cyhoeddus - mae hyn ond yn cyfeirio at daliadau nad ydynt yn gysylltiedig â chaffael. Dylai archeb gael ei threfnu mewn perthynas ag unrhyw wariant cysylltiedig â chaffael
- Diddanwyr
- Taliadau i Unigolion (Ad-daliadau Dosbarth Nos, Taliadau Maethu, Gwirfoddolwyr, Treuliau, Gwobrau, ac ati)
- Taliadau gofal cymdeithasol

C8: Rwyf ond yn cyflenwi i Ysgolion. A yw hyn yn effeithio arnaf i?

Nid yw ysgolion yn cael eu cynnwys yn y polisi Dim Archeb Prynu Dim Tâl ar hyn o bryd (ar wahân i'r 9 Peilot P2P Ysgolion Cynradd). Ni fydd unrhyw newid i'r broses archebu neu'r broses dalu ar gyfer anfonebau a dderbyniwyd ar gyfer ysgolion, am y tro.

C9: Rwyf wedi cyflenwi nwyddau neu wasanaethau i Gyngor Sir y Fflint lle ydw i'n cyflwyno fy anfoneb?

Bydd yr Archeb Prynu yn cadarnhau lle mae angen dychwelyd anfonebau. Bydd gennych opsiwn i bostio eich anfonebau i'r cyfeiriad AP priodol neu e-bostio nhw i gyfeiriad e-bost penodol, y ddau ohonynt yn cael eu nodi ar yr Archeb Prynu.

C10: A fyddaf yn cael fy nhalu ynghynt os byddaf yn dyfynnu rhif AP?

Oni chytunir ymlaen llaw, ac yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, bydd telerau talu safonol Cyngor Sir y Fflint o 30 diwrnod o dderbyn anfoneb ddilys (nid dyddiad yr anfoneb) ar gyfer yr holl gyflenwyr yn parhau.

Ar ôl gweithredu'r polisi Dim AP Dim Tâl mae'n bosibl na chaiff anfonebau a dderbyniwyd heb rif AP dilys eu talu a gellir eu dychwelyd i'r cyflenwr, oni bai eu bod yn cael eu cwmpasu gan eithriad (gweler C7). **Ar y gorau bydd hyn yn arwain at oedi sylweddol yn y broses dalu.**

C11: Yn y gorffennol, mae anfonebau heb rif AP wedi cael eu talu gan Gyngor Sir y Fflint, a fydd hyn yn dal i ddigwydd?

Na. Unwaith y caiff ei roi ar waith, bydd y polisi Dim AP Dim Tâl yn ystyried anfonebau heb rif AP dilys fel rhai nad ydynt yn cael eu cydnabod a byddant yn cael eu dychwelyd i'r cyflenwr, oni bai bod yna eithriad (gweler C7).

C12: Mae anfoneb wedi cael ei dychwelyd yn gofyn am rif AP dilys. Sut gellir cael y rhif AP?

Dylech gysylltu â'r aelod o staff o Gyngor Sir y Fflint a roddodd y cyfarwyddyd gwreiddiol i gyflenwi'r nwyddau, gwasanaethau neu waith a gofyn iddynt am rif AP. Ar ôl ei dderbyn, dylech ail-gyflwyno eich anfoneb gan sicrhau eich bod yn dyfynnu'r rhif AP.

C13: Beth ddylwn i ei wneud nawr?

Gwnewch yn siŵr bod eich holl staff sy'n derbyn archebion i gyflenwi nwyddau, gwasanaethau neu waith gan Gyngor Sir y Fflint yn ymwybodol **o'n Polisi Dim Archeb Prynu Dim Tâl** ac yn mynnu eu bod yn derbyn rhif Archeb Prynu swyddogol.

C14: A fyddaf yn cael fy hysbysu am newidiadau yn y dyfodol i'r polisi Dim AP - Dim Tâl?

Byddwch - bydd rhagor o wybodaeth ar gael trwy ein gwefan ynglŷn â'r polisi Dim AP Dim Tâl.

C15: Beth ddylwn i ei wneud os nad wyf yn gyflenwr ac rwyf wedi derbyn hysbysiad o'r polisi Dim AP Dim Tâl ond nad wyf yn cyflenwi nwyddau, gwasanaeth na gwaith i Gyngor Sir y Fflint?

Mae rhai unigolion sydd wedi derbyn taliadau/grantiau gan y Cyngor yn y gorffennol wedi cael eu cydnabod yn ein system gyfrifyddu fel cyflenwyr. Os ydych wedi derbyn hysbysiad o'r polisi Dim AP Dim Tâl ac nad ydych yn darparu nwyddau a gwasanaethau i Gyngor Sir y Fflint anwybyddwch yr Hysbysiad hwn ac rydym yn ymddiheuro am unrhyw anghyfleustra.

C16: Lle gallaf i gael rhagor o wybodaeth am werthu nwyddau neu wasanaethau i Gyngor Sir y Fflint?

Ewch i'n gwefan yn www.flintshire.gov.uk/en/Business/Selling-to-the-Council neu os oes gennych unrhyw gwestiynau penodol, yna anfonwch e-bost i eprocurement@flintshire.gov.uk.